

## Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Haf Evans (Henllan) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei mam, Mrs Miriam Owens, ddiwedd yr wythnos ddiwethaf. Gweddïwn y bydd y teulu oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at Elizabeth Jones (Llansannan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Rhiannon Davies (Tanyfron) ac Elfyn Davies (Saron) gafodd lawdriniaeth yno yn ystod yr wythnos ond sydd adref erbyn hyn. Parhawn i gofio hefyd am Beryl Jones (Nantglyn) a Kitty Parry (Llanefydd) sydd yn yr Inffirmari. Mae eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Parhawn i gofio amdanynt oll ac am y rhai hynny sy'n galaru am anwyliaid. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw.

## I ddod

- **ADNABOD ADDOLI** yn Ffestri Llansannan am 8.00 nos Fercher, Gorffennaf 8fed.
- **CWPAN PÊL-DROED 5 BOB OCHR CIC:** Twrnament i aelodau CIC ar draws Gogledd Cymru, blynnydoedd 7-9 ar nos lau, Gorffennaf 9fed am 5.30 yng Nghanolfan Tŷ Nant, Abererch, ger Pwllheli. Bydd barbeciw a siaradwr gwadd yn rhan o'r noson. Os oes diddordeb, cysylltwch â Rhodri neu Huw Tan y Graig erbyn nos Wener, Gorffennaf 3ydd i roi enwau ac er mwyn i ni drefnu trafndiaeth yno.
- Mae **TEARFUND CYMRU** yn ein gwahodd i **'...nid wrth ein tlodi y byddwch yn ein nabod...'** yn Eglwys Unedig Gloddaeth, Stryd y Capel, Llandudno LL30 2YF dydd Sadwrn, Gorffennaf 11eg o 3.00-5.00 i ddysgu mwy am y gwaith sy'n digwydd yn Ethiopia. Bydd Keith Etherington (cynrychiolydd i Tearfund sy'n byw yn Ethiopia) yn sôn wrthym am y mudiad sydd eisoes wedi gweld 1.2 miliwn o bobl yn eu codi eu hunain allan o dlodi. Onid mae cymaint mwy i'w wneud... Bydd te, coffi a lluniaeth ysgafn ar gael. Ni chodir tâl mynediad ond bydd unrhyw roddion yn mynd at waith Grwpiau Hunan-gymorth Tearfund yn Ethiopia. Croeso i bawb! Os am fynd yno, atebwch, os gwelwch yn dda, erbyn 1 Gorffennaf 2015 i fiona.michael@tearfund.org neu gallwch ffonio (01437) 721139 neu hywel.meredydd@tearfund.org.
- **CYRSIAU HAF COLEG Y BALA: CWRS IEUENCTID (BL.7-11)** Gorff. 27ain – 31ain; **ANRHEFN AWST (8-12 oed)** Awst 10fed –13eg; **SOULED OUT (oed 15+)** Awst 15fed –20fed. Cysylltwch â Choleg y Bala am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Bydd gostyngiad o £20 i bob un o'r Ofalaeth fydd yn mynychu.
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** nos Fawrth, Medi 15fed am 7.30 yng Nghapel Henllan. Y siaradwraig fydd Sarah Morris. Croeso i bawb.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Barnwyr 10:1-7 (BCND tud.232 / BCN: tud.212)



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 28<sup>ain</sup> Mehefin 2015 (BCND tud.213 / BCN: tud.195)

Darlleniad y Dydd

Effesiaid 4:1-13


[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da i chi ar Sul yr Ofalaeth! Byddwn yn mynd gyda'n gilydd i le arbennig heddiw – i'r Bala dirion deg, ac ychydig yn nes draw hefyd at Eglwys Llanycil a Chanolfan Byd Mari Jones. Beth fyddai'r ferch dlawd yn ei feddwl tybed fod pobl o ben draw'r byd yn teithio i Lanycil bellach i glywed am ei hanes yn cerdded i brynu Beibl gan y Parch. Thomas Charles a chychwyniadau'r Feibl Gymdeithas? Mae'r Bala wedi bod yn gyrchfan bwysig ers canrifoedd, ac yn ein cyfnod ni o anffyddiaeth mawr, does dim dwywaith nad ydi Duw wedi bendithio cenedlaeth newydd trwy alw gweithwyr ffyddlon Coleg y Bala, a thrwyddynt hwy, genedlaethau newydd. Yr un ffydd ag oedd wedi ei roi i Charles a Mari Jones sy'n awr yn eiddo nifer gynyddol o ieuencid Cymru trwy ras ein Duw a grym yr Ysbryd Glân. Byddwn ar bererindod i ddathlu hanes ymwneud Duw â'n gwlad ond byddwn hefyd yn dathlu daioni Duw i'n hoes ni gyda Owain a Joseff yn arwain addoliad. Edrychwn ymlaen yn ddisgwylgar am brofi Duw yn ei nerth a'i ogoniant yng Nghrist, ac 'i Grist' y byddo'r mawl i gyd.

Hyfrydwch hefyd ydi cael canmol Duw am fod mor drugarog a hael o'n plaid y tu hwnt i bob haeddiant o'n heiddo. Mae wedi dod â dau arbennig iawn atom i gyflawni gweinidogaeth am flwyddyn wrth i Rhodri barhau gyda'i astudiaethau o fis Medi ymlaen. Gwion Dafydd a Sarah Johnson fu'n llwyddiannus yn y cyfweiliadau a gawsom ac mae'r ddau wedi derbyn y cynnig o swydd ac am rannu'r gwaith.

Rydym ni fel tîm wrth ein boddau, nid yn unig am ein bod yn adnabod y ddau, ond am fod Duw wedi rhoi doniau pwerus iddynt a'u rhoi i ni i gyflawni gwaith gweinidogaeth yn ei Eglwys yn union fel sy'n cael ei ddisgrifio yn y darlleniad heddiw. Duw ei hun, ar sail buddugoliaeth dragwyddol Iesu sy'n codi ac yn galw rhai i weithio yn ei Eglwys ac, yn achos Gwion a Sarah, i weinidogaeth sydd mor heriol a phwysig hefo plant a phobl ifanc a theuluoedd ifanc. Diolch amdanynt a gweddïwn drostynt wrth iddynt baratoi i ddod atom – ac i'w priodas ym mis Hydref!

Yr wythnos ddiwethaf, cawsom gwmmi Gwilym Tudur, ac rŵan mae Gwion a Sarah yn dod atom i weithio o'r un genhedlaeth. Mae Duw yn dda – yn dda iawn, a dyma ddiwrnod da i ddathlu ei ddaioni gyda'n gilydd.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

*Anurin*

## Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

Heddiw – 28<sup>ain</sup>  
**SUL Y FRO**

## i-Grist am 10:30

Oedfa'r bore i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth  
yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan  
yng nghwmni

**Dr Owain Edwards** (*Coleg y Bala*)

Fe wneir casgliad arbennig tuag at Apêl Nepal yn ystod yr oedfa.  
Yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i Ganolfan Byd Mari Jones yn Llanylic i  
gael picnic a chyfle i gymdeithasu, a chael tro o gwmpas y Ganolfan.

**Parcio:** Er diogelwch, gofynnwn i chi beidio parcio o flaen y capel, os gwelwch yn  
dda, ond bydd digonedd o le parcio naill ai ym maes parcio'r capel, ym maes  
parcio'r Ganolfan neu ar ochr y ffordd yn arwain at y Ganolfan.

**Cadair Olwyn:** Os dymunwch ddefnyddio'r gadair olwyn sydd yn y capel, rhowch  
wybod i Mair ymlaen llaw neu un o'r rhai fydd yn y cyntedd yn eich croesawu.

## Oedfa o Fawl am 3:00

Cyn inni droi am adref, bydd **Joseff Edwards** yn arwain oedfa yng Ngholeg y  
Bala, a bydd darpariaeth yno hefyd i'r plant. Croeso i bawb!

Mawrth – 30<sup>ain</sup>

Mercher – 1<sup>af</sup>

Gwener – 3<sup>ydd</sup>

Sadwrn – 4<sup>ydd</sup>

- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- **Adnabod – Grŵp Mair** yn cyfarfod yn y Granar am 7.30.
- **Barbeciw Diwedd Tymor C.I.C.** ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan o 7.30 tan 9.15.
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Bethania, Rhuthun. Pwyllgor Gwaith am 3.00, gwaith yr Henaduriaeth am 4.30, ac oedfa gyhoeddus am 7.00 pryd y bydd blaenoriaid yn cael eu llongyfarch, a blaenoriaid newydd yn cael eu hordeinio. Dymunwn fendith Duw ar Rhian Evans fydd yn cael ei hordeinio i wasanaethu fel blaenor yng Nghapel Henllan.
- **Diwrnod Bach i'r Brenin Mawr** yn Nant Gwrtheyrn o 10.30 – 4.00. Bydd rhywbeth i bawb o bob oed – Ffydd, Beibl, Hwyl, Gwirionedd, Cerddoriaeth, Mawl. Mwy o wybodaeth ar y wefan: [www.annibynwyr.org](http://www.annibynwyr.org).
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Rhodri yn pregethu.

Sul nesaf – 5<sup>ed</sup>

## Cyhoeddiadau

### Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul nesaf – 5<sup>ed</sup> Bydd Gwilym Tudur yn arwain oedfa deuluol i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

Sul nesaf – 5<sup>ed</sup> Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Yn dilyn oedfa'r bore, bydd pwyllgor i drefnu rhaglen y Gymdeithas am 2015-16. Croeso i bawb.

### Tanyfron a Nantglyn

Sul nesaf – 5<sup>ed</sup> Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

### Saron a Pheniel

Sul nesaf – 5<sup>ed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn **Saron** (sylwch ar y newid lleoliad). Yn ystod yr oedfa bydd Casi Blodwen, merch fach Non a Shane yn cael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

### Henllan a Groes

Sul nesaf – 5<sup>ed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Yn ystod yr oedfa bydd Gethin Wyn, mab bach Iwan a Menna yn cael ei fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

Gwener – 3<sup>ydd</sup> Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghewn Berain am 12.00. Croeso i bawb!

Sul nesaf – 5<sup>ed</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.